




RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
77/2016
DYDDIAD CYHOEDDI:
7 RHAGFYR 2016

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

Cam 4, hydref 2016



Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru: Cam 4, hydref 2016

Anthony Lydall a Laura Nesbitt, Strategic Research and Insight



Barn yr ymchwilydd ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Dr. Robert Lewis,

Pennaeth Ymchwil Twristiaeth, Adran: Adran Gwyddoniaeth, yr Economi a Thrafnidiaeth

Canolfan QED

Ystad Trefforest

Pontypridd

Rhondda Cynon Taf

CF37 5YR

Ffôn: 0300 061 6026

Ebost: robert.lewis@wales.gsi.gov.uk

Cynnwys

1. PRIF GANFYDDIADAU.....	2
2. CANFYDDIADAU ANSODDOL	4
3. CEFNDIR A METHODOLEG.....	7
4. PERFFORMIAD YN Y FLWYDDYN HYD YN HYN	9
5. RHESYMAU DROS LEFELAU UWCH O YMWELWYR.....	12
6. RHESYMAU DROS LEFELAU GOSTYNGEDIG O YMWELWYR.....	14
7. PROFFIDIOLDEB	16
8. PERFFORMIAD MARCHNADOEDD	18
9. PERFFORMIAD HANNER TYMOR MIS HYDREF.....	20
10. DISGWYLIADAU A HYDER AR GYFER 2017	21
ATODIAD	27

1. PRIF GANFYDDIADAU

Mae busnesau twristiaeth yn adrodd blwyddyn dda yn 2016

- 1.1 Mae bron hanner (46%) yr ymatebwyr wedi croesawu cynnydd yn nifer yr ymwelwyr y maent wedi'u derbyn eleni, o'i gymharu â 2016. Mae gan 36% pellach lefel tebyg o ymwelwyr eleni, sy'n golygu fod gan 82% o ymatebwyr lefel debyg neu uwch o ymwelwyr o gymharu â llynedd.
- 1.2 Mae cyfraddau cyfnewid wedi arwain at Gymru'n dod yn well gwerth ar gyfer ymwelwyr o dramor, ac mae hyn wedi annog mwy o Brydeinwyr i fynd ar wyliau gartref.

Cynnydd mewn busnes ar draws y wlad

- 1.3 Mae'r cynnydd mewn ymwelwyr wedi cael ei fwynhau ar draws Cymru, gyda chyfrannau da o bobl ymhob rhanbarth yn adrodd mwy o bobl yn ymweld nag y llynedd. Mae hanner (51%) o fusnesau yn y de-orllewin yn adrodd cynnydd, sydd wedi'i ddilyn gan ganolbarth Cymru (48%), gogledd Cymru (44%) a de-ddwyrain Cymru (40%).

Mae tywydd da ac ymweliadau rheolaidd yn cynyddu masnach

- 1.4 Yn ogystal â gwyliau gartref, mae tywydd braf 2016 (22%) a busnes dychwel (19%) yn aml yn cael eu nodi fel rhesymau bod busnesau'n gweld cynnydd mewn ymwelwyr eleni.

Arosiadau byrrach yn dod yn fwy normal

- 1.5 Mae rhai ymatebwyr wedi sylwi ar leihad o ran parhad arosiadau. Er bod y nifer o wyliau ac arosiadau byr yn aros yn debyg i'r llynedd, mae'r nifer o nosweithiau ar gyfartaledd wedi mynd yn is nag arosiadau blaenorol ar gyfartaledd.

Mae proffidioldeb yn codi

- 1.6 Gyda chynnydd cyffredinol mewn ymwelwyr y daw cynnydd mewn proffidioldeb. Yn gyffredinol, mae 39% o ymatebwyr wedi cymryd mwy o elw yn 2016 nag y gwnaethant yn 2015. Mae rhai ymatebwyr bellach yn gwario arian ar eu busnesau i naill ai adnewyddu neu ehangu eu cynigion.

Mae'r dyfodol yn ddisglair ar gyfer diwydiant twristiaeth Cymru ...

- 1.7 Yn dilyn 2016 llwyddiannus, mae'r rhan fwyaf (84%) yn hyderus am y flwyddyn i'w ddod. Mae bwciadau ymlaen llaw ar gyfer llety wedi codi ar gyfer 30% o weithredwyr a disgwylir i'r

buddiannau a deimlir o'r cyfraddau cyfnewid barhau'r duedd o wyliau gartref a nifer uwch o ymwelwyr o dramor.

... ond mae ansicrwydd ynghylch effaith Brexit

1.8 Tra bod rhai wedi manteisio o'r bunt wannach yn dilyn pleidlais y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd, mae llawer yn ansicr o'r effaith hirdymor y bydd hyn yn ei chael ar y diwydiant twristiaeth.

Effaith Trump

1.9 Mae etholiad America wedi arwain at Donald Trump ennill y ras i fod yn arlywydd nesaf yr Unol Daleithiau. Mae rhai ymatebwyr yn ansicr o'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar y diwydiant.

1.10 Gyda'i gilydd, mae'r bleidlais Brexit a'r bleidlais etholiadol yn y UDA wedi gadael i rai teimlo'n ansicr ynghylch eu heffaith yn y dyfodol, os o gwbl, ar eu busnes ac ar ymwelwyr i Gymru.

2. CANFYDDIADAU ANSODDOL

- 2.1 Mae wyth cyfweiliad manwl wedi cael eu cynnal dros y ffôn gyda ffigurau twristiaeth allweddol ar draws sefydliadau a chyrrff amrywiol ar draws Cymru.
- 2.2 Trafodir y prif ganfyddiadau isod.

Perfformiad cryf eleni ar gyfer y diwydiant twristiaeth

- 2.3 Mae'r adborth gan arweinwyr diwydiant wedi bod yn gadarnhaol. Mae arweinwyr diwydiant yn teimlo bod y nifer o bobl sy'n ymweld â Chymru wedi codi ers y flwyddyn ddiwethaf, gyda haf llwyddiannus yn chwarae rhan allweddol. Er gwaethaf y pryderon am dwristiaeth yn y gwanwyn, mae'n ymddangos bod haf llwyddiannus wedi chwarae rôl allweddol mewn hyder rhanddeiliaid.

“Ar y cyfan mae wedi codi, ychydig o simsanu ar ddiwedd mis Mai/dechrau mis Mehefin ond yna cawsom haf da.”

“Yn well o lawer na'r flwyddyn flaenorol ... mae eleni'n dda iawn.”

“Mae wedi bod yn dda eleni. Mae'r tywydd wedi bod yn dda yng ngogledd Cymru dros yr haf.”

“Ers mis Mehefin, rydym wedi gweld cynnydd o ran deiliadaeth ... mae deiliadaeth yn y chwarter diwethaf wedi bod ar ei uchaf am amser hir.”

Mae'r bunt wannach wedi codi nifer yr ymwelwyr o dramor

- 2.4 Mae arweinwyr diwydiant yn teimlo fel petai'r bunt wannach wedi annog mwy o ymwelwyr o dramor i ddod i Gymru. Mae rhanddeiliaid wedi sylwi ar gynnydd penodol mewn ymwelwyr o'r Almaen, Awstralia a'r UDA.

“Mae cynnydd cyffredinol wedi bod o ran ymwelwyr o dramor – y farchnad Almaenig yn enwedig, yn ogystal ag Awstralia.”

“Cynnydd bach o Awstralia a rhai'n ymweld o America.”

“Mae cyfraddau cyfnewid o hyd yn isel, sydd wedi cryfhau'r farchnad ddomestig ac yn gwneud gwyliau yn rhatach ar gyfer ymwelwyr o dramor.”

Mae'r bleidlais Brexit wedi cynyddu gwyliau gartref

2.5 Mae arweinwyr diwydiant yn teimlo bod gwerth llai'r bunt wedi arwain at nifer uwch o wyliau gartref. Mae rhai yn teimlo bod y rhain yn ymwelwyr o ddinasoedd y DU sy'n treulio penwythnosau ychwanegol i ffwrdd, yn hytrach na gwyliau o wythnos neu bythefnos dramor.

"Oherwydd digwyddiadau byd eang a'r bunt wannach, rydym hefyd yn cael mwy o wyliau gartref, ond mae'r rhain yn benwythnosau ychwanegol i ffwrdd yn hytrach na gwyliau pythefnos i Sbaen; maent yn fathau hollol wahanol o wyliau."

"Mae marchnad y DU yn aros gartref hefyd oherwydd yr ewro."

"Nid ydym wedi darganfod a yw Brexit wedi cael gwir effaith ar dwristiaeth, ond mae llawer o Brydeinwyr yn mynd ar eu gwyliau yn y DU eleni."

"Rwy'n credu bod mwy o bobl yn dewis aros yn y DU yn hytrach na theithio dramor i Ewrop."

Mae achub y cyfle o ddefnyddio gwefannau bwcio wedi elwa rhai pobl

2.6 Mae rhai arweinwyr diwydiant yn crybwyll yn benodol bod aelodau sydd wedi rhestru eu hunain ar wefannau bwcio megis *booking.com* neu *AirBnB* a gwefannau adolygu fel *TripAdvisor*, wedi achosi nifer uwch o ymwelwyr ar gyfer eu busnes.

"Mae rhai aelodau wedi dechrau defnyddio gwefannau bwcio megis booking.com ac mae hyn wedi cynyddu eu bwciadau."

"Maent yn cael lot o fusnes gan bobl fel AirBnB a TripAdvisor."

2.7 Yn yr un modd, gwnaeth rhanddeiliad arall grybwyll bod pobl o hyd yn cael eu hannog i fynd mewn i'r diwydiant twristiaeth.

"Mae rhai pobl yn cychwyn yn y diwydiant drwy gymryd drosto busnesau sydd eisoes yn bodoli pan fo'r perchnogion yn gwerthu neu'n ymddeol."

Pryderon ynghylch Canolfannau Croeso yn cau

2.8 Mae gan rai arweinwyr diwydiant bryderon ynghylch cau Canolfannau Croeso, yn enwedig yng ngogledd-orllewin Cymru.

Mae angen rhywfaint o welliant gan Groeso Cymru

2.9 Mae gan nifer o randdeiliaid gwynion bychain am y diwydiant twristiaeth a'r ffordd y mae'n cael ei reoli. Mae'r rhain yn amrywio o gwynion bod marchnata'n canolbwyntio gormod ar dde-ddwyrain Cymru i farchnata a chyfathrebu gan Groeso Cymru.

Mae'r rhagolygon ar gyfer y flwyddyn nesaf yn gadarnhaol

2.10 Mae'r dyfodol yn edrych yn ddisglair i 2017, yn ôl arweinwyr diwydiant. Yn dilyn 2016 llwyddiannus, gall y diwydiant ddisgwyl mwy o gynnydd wrth i Gymru barhau i godi ei hatyniad ar gyfer arosiadau byr a gwyliau.

“O ystyried yr holl newidiadau yn ddiweddar (gwleidyddol), er syndod, mae pobl yn gadarnhaol.”

“Mae gennym y cyfle i dderbyn mwy o westeion o Ewrop os yw'r bunt o hyd yn isel.”

“Gwell disgwyliadau ar gyfer y flwyddyn nesaf – yn sicr gyda'r ewro. Rwy'n credu y bydd teuluoedd yn aros yn agosach i gartref, ond mae hyn yn dibynnu ar y tywydd hefyd.”

“Rwy'n credu bod aelodau'n weddol gadarnhaol; mae rhai'n dweud bod ganddynt fwciaadau am y flwyddyn nesaf yn barod.”

“Rydym yn teimlo y bydd y flwyddyn nesaf yn ailadrodd eleni.”

3. CEFNIDIR A METHODOLEG

Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

- 3.1 Mae Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru wedi ei gynllunio i roi adborth cyflym ynglŷn â'r ffordd y mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r arolwg wedi bod yn rhedeg ar amrywiol ffurfiau ers 2005, ac arferir cynnal rhwng dau a phum 'cam' ymchwil bob blwyddyn.
- 3.2 Mae'r don ymchwil hon yn ymwneud â hydref 2016, gyda mesuriadau hefyd o ddisgwyliadau ar gyfer 2017.

Sut y cynhelir yr arolwg?

- 3.3 Mae'r arolwg hwn wedi cael ei wneud ar gael i'w lenwi ar-lein fel dewis arall yn lle ffonio, a oedd yr unig ddull a ddefnyddiwyd cyn 2016.
- 3.4 Rydym wedi cynnal 834 o gyfweiliadau dros y ffôn, ac mae'r arolwg ar-lein a ddsbarthwyd yn ôl ardal a phartneriaid sector wedi cynhyrchu 78 ymateb arall. Mae'r sampl gyfan o 912 yn golygu bod canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i $\pm 3.2\%$.
- 3.5 Mae'r sampl o 912 ymateb yn adlewyrchu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac fe'i dangosir isod yn ôl sector a rhanbarth:


Sector / Rhanbarth	Gogledd	Canolbarth	De-orllewin	De-ddwyrain	Cyfanswm
Llety â gwasanaeth	103	50	80	69	302
Llety hunanddarpar	97	68	95	41	301
Safleoedd carafanau / gwerysyla	39	15	22	5	81
Hostelau	6	6	8	8	28
Atyniadau	33	16	24	29	102
Bwytai / tafarndai / caffis	9	16	9	12	46
Gweithredwyr gweithgareddau	17	9	19	7	52
Cyfanswm	304	180	257	171	912

- 3.6 Mae oddeutu hanner y sampl (64%) wedi eu graddio gan Groeso Cymru ar hyn o bryd ac mae'r gweddill (36%) heb eu graddio. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau nad ydynt wedi eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytai / tafarndai / caffis a gweithredwyr gweithgareddau, lle nad yw graddio yn berthnasol. Mae gweithredwyr bwytai, tafarndai a chaffis wedi eu dewis mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o dwristiaid ar draws gwahanol rannau o Gymru a gofynnwyd iddynt ateb cwestiynau yng nghyd-destun eu cwsmeriaid sy'n dwristiaid (h.y. nid cwsmeriaid lleol).
- 3.7 Mae pob cyfweiliad dros y ffôn wedi ei gynnal gyda pherchnogion neu reolwyr busnes ym mis Tachwedd. Cynhwysir copi o'r holiadur fel atodiad.

4. PERFFORMIAD YN Y FLWYDDYN HYD YN HYN

PERFFORMIAD YN ÔL SECTOR

Chart: Question 3 "Compared with the same period last year, how many visitors have you had to date this year?" Results split by 'more', 'same' 'fewer' by sector



Mae'r bunt wannach yn gwneud Cymru'n gyrchfan atyniadol

- 4.1 Mae lleihad yng ngwerth y bunt wedi cyfrannu at gynnydd yn y nifer o ymwelwyr a groesawyd gan y diwydiant twristiaeth yng Nghymru eleni.
- 4.2 Mae'r lleihad, a ddigwyddodd ar ôl i'r DU bleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd, nid yn unig wedi gwneud y DU yn gyrchfan gwell am werth eich arian i'r rheiny y tu allan i'r wlad, ond mae wedi annog mwy o Brydeinwyr i ddewis gwyliau gartref yn hytrach na chyrchfannau tramor ar gyfer arosiadau byr a gwyliau. Mae Cymru wedi buddio o'r amrywiadau mewn arian cyfred yn dilyn Brexit, sydd wedi cyfrannu at bron i hanner (46%) o'r holl ymatebwyr yn croesawu mwy o ymwelwyr nag y llynedd, gan gynnwys 46% o'r rheiny mewn llety â gwasanaeth a 44% o weithredwyr hunanddarpar.

"Mae'r bunt wan wedi bod yn fonws."
Llety â gwasanaeth

"Mae mwy o bobl yn aros gartref ar ôl Brexit."
Hunanddarpar

"Rydym wedi gweld llawer o bobl o Ewrop a Lloegr eleni, yn enwedig ar ôl Brexit."
Llety â gwasanaeth

"Blwyddyn orau yn ein 11 mlynedd o fasnachu, oherwydd gwyliau gartref, Brexit, a graddau cyfnewid dilynol."
Bwyty / tafarn / caffi


Gwersyllwyr wrth eu bodd mewn 2016 mwyn

4.3 Mae tua hanner o weithredwyr safleoedd carafanau a gwersylla (52%) wedi adrodd bod mwy o bobl yn aros ar eu safleoedd nhw eleni, o'i gymharu â 2015. Mae hyn yn rhannol oherwydd blwyddyn weddol fwyn, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar y sector hwn sy'n dibynnu ar y tywydd.

"Roedd y tywydd yn fwyn."
Safle carafanau / gwersylla

"Amodau tywydd."
Safle carafanau / gwersylla


TUEDD PERFFORMIAD



Mae'r flwyddyn yn gorffen yn dda ar gyfer sector twristiaeth Cymru

4.4 Ers cam cychwynnol y baromedr hwn ym mis Ebrill eleni, mae'r diwydiant twristiaeth wedi gweld cynnydd cadarn o ran nifer yr ymwelwyr. Yn gyffredinol yn 2016, mae tua hanner (46%) yn adrodd cynnydd – sefyllfa gryfach o lawer na'r 21% a welodd Pasg gwell.

PERFFORMIAD YN ÔL RHANBARTH




Sylfaen: 869

Blwyddyn well o ran twristiaeth ar draws y wlad

- 4.5 Mae'r cynnydd yn y nifer o ymwelwyr eleni wedi cael ei groesawu drwy gydol pedwar rhanbarth Cymru. Mae gan y de-orllewin y gyfran uchaf (51%) o ymatebwyr sy'n adrodd cynnydd, gyda'r canolbarth yn dilyn yn agos (48%).
- 4.6 Mae dau o bob pum ymatebwr (40%) wedi derbyn mwy o ymwelwyr, tra bod 44% o'r rhain yn y gogledd yn adrodd niferoedd uwch o gymharu â 2015.

5. RHESYMAU DROS LEFELAU UWCH O YMWELWYR



Mae gwyliau gartref yn rhoi hwb i dwristiaeth

- 5.1 Mae tua thri mewn deg (29%) o ymatebwyr sydd wedi derbyn mwy o ymwelwyr eleni'n dweud bod mwy o bobl Brydeinig yn aros yn y DU wedi helpu'r cynnydd. Fel y nodwyd yn gynt yn yr adroddiad, mae lleihad yng ngwerth y bunt yn dilyn Brexit wedi gwneud Prydeinwyr ar wyliau'n fwy tueddol o aros yn y DU, gan fod arian tramor yn cynnig llai o werth am eich arian.
- 5.2 Mae llety â gwasanaeth, yn benodol, yn ymddangos fel petai wedi buddio o Brydeinwyr yn dewis gwyliau gartref, gyda 35% yn adrodd hyn fel ffactor cyfraniadol i'r cynnydd.

*"Yn yr haf, roedd hi'n teimlo fel petai mwy o bobl ar wyliau yma o lefydd agosach – ymwelwyr o Gymru a Lloegr."
Llety â gwasanaeth*

Mae tywydd gwell yn darparu cyfnod cynnes i rai

- 5.3 Mae tua dau mewn pump (38%) o safleoedd carafanau a gweryslla sy'n mwynhau cynnydd eleni'n dweud bod tywydd gwell eleni wedi helpu'r cynnydd.
- 5.4 Yn gyffredinol, mae 35% o atyniadau'n credu bod tywydd gwell wedi hwbio masnach. Mae cyfran uwch o atyniadau sydd yn yr awyr agored yn hollol, neu sydd â chymysgedd cytbwys o'u safle yn yr awyr agored a thu fewn (23%), wedi buddio o dywydd gwell, o'i gymharu â'r rheiny sydd tu fewn yn hollol neu â'r rhan helaeth tu fewn (12%).


"Roedd y tywydd yn dda, a oedd yn dda i ni."
Atyniad

- 5.5 Yn ogystal, mae gwell tywydd eleni'n ymddangos fel petai wedi buddio mwy o weithredwyr yn y de-orllewin (29%) o gymharu â rhanbarthau eraill o Gymru.

Dod yn ôl am ragor

- 5.6 Mae tua un mewn pump (19%) yn pennu busnes dychwel fel rheswm am weld mwy o ymwelwyr eleni, gan gynnwys 23% o weithredwyr hunanddarpar.

6. RHESYMAU DROS LEFELAU GOSTYNGEDIG O YMWELWYR



Sylfaen: 160

Gall peidio â hyrwyddo arwain at leihad

6.1 Mae tua un mewn pump (20%) o ymatebwyr sydd wedi derbyn llai o ymwelwyr eleni'n dweud nad oeddent wedi cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd hyrwyddol, yn aml oherwydd bod y busnes yn dod i ben, neu wedi cael ei gau dros dro ar gyfer adnewyddu.

"Rydym wedi dechrau dod i ben â'r busnes eleni a bellach wedi cau o ddiwedd mis Medi."

Atyniad

"Rydym yn ceisio ymddeol nawr felly rydym yn dechrau dod i ben â'r busnes."

Llety â gwasanaeth

"Rydym ond yn cymryd rhai ymwelwyr dychwel bellach; rydym yn dod i ben â'r busnes."

Hunanddarpar

"Rydym wedi cau yn gynharach eleni er mwyn adnewyddu; byddwn ar agor ar ddechrau'r flwyddyn nesaf."

Hunanddarpar

Mae problemau nad oedd modd eu rhagweld yn arwain at lai o ymwelwyr i rai

6.2 Er gwaethaf cynlluniau trylwyr, gall amgylchiadau annisgwyl achosi llai o ymwelwyr, fel y profwyd gan 18% o ymatebwyr. Gall y problemau hyn nad oedd modd eu rhagweld amrywio, ond gallant gynnwys profedigaeth deuluol, salwch a llifogi.

BWCIADAU SEFYDLOG OND AROSIADAU BYRRACH

6.3 Er bod rhai ymatebwyr yn dweud eu bod yn derbyn nifer tebyg o fwcia dau ag y llynedd, maent wedi sylwi bod y nifer o nosweithiau y mae ymwelwyr yn eu bwcio wedi lleihau.

"Rydym yn derbyn mwy o fwcia dau tair a phedair nos yn lle wythnosau cyfan nawr."

Llety â gwasanaeth


"Rydym wedi gweld bod nifer o ysgolion, sydd fel arfer yn aros am bedair noswaith, bellach ond yn aros am ddwy a'r rhai sydd fel arfer yn aros am ddwy noswaith ond yn aros am un."

Hostel

"Mae nifer o bobl wedi dod am arosiadau byr."

Hunanddarpar


7. PROFFIDIOLDEB



Cynnydd mewn proffidioldeb ar draws y sectorau

7.1 Yn unol â 2016 llwyddiannus, mae proffidioldeb wedi codi ar draws pob sector (39%). Yn dilyn blwyddyn dda, mae dros hanner (55%) o weithredwyr safleoedd carafanau a gwersylla wedi cofnodi elw'n uwch nag y llynedd, fel y mae 48% o fwytaï, tafarndai a chaffis, 39% o weithredwyr hunanddarpar, a mwy na thraean o weithredwyr llety â gwasanaeth (36%) ac atyniadau (36%).


TUEDDIADAU PROFFIDIOLDEB



Proffidioldeb yn uwch nag y llynedd

7.2 O'i gymharu â llynedd, mae 39% o fusnesau sydd wedi ymateb wedi cofnodi elw uwch nag yn 2015. Ers y cam cyntaf o'r baromedr ym mis Ebrill, cododd proffidioldeb ar gyfer mwy a mwy o gyfrannau o fusnesau, gan wella o chwarter (25%) i ddau mewn pump (39%) yn gyffredinol.

8. PERFFORMIAD MARCHNADOEDD



Sylfaen: 785

Adlewyrchir y cynnydd mewn gwyliau gartref mewn perfformiad cryf y DU

- 8.1 Mae'r DU y tu allan i Gymru wedi bod yn ffynhonnell o fwy o ymwelwyr ar gyfer tua dau mewn pump (41%) o ymatebwyr. Fel y nodwyd yn gynt yn yr adroddiad, un o'r rhesymau am y cynnydd mewn Prydeinwyr yn mynd ar wyliau gartref yw'r lleihad yng ngwerth y bunt yn dilyn Brexit.
- 8.2 Mae bron hanner (50%) o'r holl fwytai yn dweud eu bod wedi bod yn gweini mwy o Brydeinwyr nad ydynt yn Gymry eleni, o'i gymharu â 2015, yn yr un modd ag y mae 44% o weithredwyr gweithgareddau a 42% o weithredwyr llety â gwasanaeth, llety hunanddarpar ac atyniadau.

Presenoldeb Ewropeaidd cryfach yng Nghymru

- 8.3 Mae tua thraean (34%) o ymatebwyr wedi croesawu cynnydd yn y marchnadoedd Ewropeaidd. Eto, mae gwanhad y bunt wedi cael ei briodoli i'r cynnydd mewn ymwelwyr o Ewrop, gan fod Prydain a Chymru'n well gwerth am arian diolch i gyfraddau cyfnewid gwell ar gyfer y rheiny sy'n cyfnewid eu hewros i bunnoedd.

"Nid ydym yn tueddu i nodi o le y mae ein hymwelwyr yn dod ond rydym wedi gweld mwy o Ewropeaid o lawer."

Atyniad

"Llawer o Ewropeaid a Saeson eleni, yn enwedig ar ôl Brexit."

Llety â gwasanaeth

"Rydym yn gweld cynnydd sylweddol o ymwelwyr o'r Iseldiroedd."

Llety â gwasanaeth

Mae busnes o'r Almaen yn 'sehr gut' yn 2016

8.4 Mae tri mewn deg (31%) o weithredwyr ymatebol wedi gweld cynnydd yn y nifer o ymwelwyr Almaenig eleni.

"Rydym wedi cael llawer o bobl o'r Almaen a gwledydd Ewropeaidd eraill; mae wedi bod yn grêt."

Atyniad

Codiadau llai o agosach i ddod ac o ar draws y byd

8.5 Mae tua chwarter (23%) wedi croesawu mwy o ymwelwyr o Gymru, 21% o Ogledd America a 10% o Weriniaeth Iwerddon, ac mae 22% wedi gweld cynnydd yn y nifer o ymwelwyr o lefydd eraill yn y byd.

"Rwyf wedi sylwi bod llawer mwy o Americanwyr yn dod i Gymru; mae'n ymddangos fel bod wir ddiddordeb."

Gweithredwr gweithgareddau


"Sylwais ar fwy o Awstraliaid eleni."

Llety â gwasanaeth

"Rwyf wedi gweld cynnydd mawr mewn gwesteion o'r Dwyrain Pell."

Llety â gwasanaeth

9. PERFFORMIAD HANNER TYMOR MIS HYDREF



Sylfaen: 829

Canlyniadau cymysg ar gyfer hanner tymor mis Hydref


- 9.1 Gwelodd hanner tymor mis hydref ganlyniadau cymysg ar gyfer sectorau yn y diwydiant twristiaeth, gyda chynnydd ar yr un cyfnod y llynedd ar gyfer 28% o ymatebwyr.
- 9.2 Gwelodd cyfran uwch o fwytai / tafarndai / chaffis (42%) ac atyniadau (41%) gynnydd o'i gymharu â rhai sectorau, gyda hostelau (39%) nid ymhell y tu ôl.

"Roeddem yn fwy prysur yn ystod yr hanner tymor. Rwy'n credu bod ein henw'n dod yn fwy adnabyddus nawr."

Atyniad

10. DISGWYLIADAU A HYDER AR GYFER 2017

BWCIADAU YMLAEN LLAW AR GYFER LLETY



Bwciadau ymlaen llaw yn dechrau codi'n raddol

10.1 Ar ôl tuedd a welodd nifer uwch o ymhelwyr yn gadael eu cynlluniau gwyliau i'r funud olaf, mae'r nifer o fwciadau ymlaen llaw ar gyfer y flwyddyn nesaf wedi codi ar gyfer 30% o ddarparwyr llety.

"Mae gennym rai bwciadau o'r Almaen y flwyddyn nesaf."

Hunanddarpar

"Mae gennym fwciadau yn barod ar gyfer Awst 2017."

Safle carafanau a gweryslla

"Rydym yn sicr wedi cael mwy o fwciadau ymlaen llaw o dramor nag a gawsom ni'r adeg hon y llynedd."

Llety â gwasanaeth


"Mae gennym gymaint o fwciadau ar gyfer 2017 bod gwsteion bellach yn bwcio ar gyfer 2018 fel eu bod yn gallu cael lle."

Llety â gwasanaeth

"Nid ydym erioed wedi cael gymaint o fwciadau ymlaen llaw."

Llety â gwasanaeth

HYDER YN ÔL SECTOR



Sylfaen: 912

Mae hyder yn uchel wrth i 2017 ddynesu

- 10.2 Wrth i 2016 ddod i ben, mae'r dyfodol yn edrych yn ddisglair, gyda sector twristiaeth Cymru'n mynd mewn i'r flwyddyn nesaf gyda lefel dda o hyder. Yn gyffredinol, mae 84% yn weddol hyderus (53%) neu'n hyderus iawn (31%) am berfformiad eu busnes yn 2017.
- 10.3 Mae'r rhan fwyaf o hostelau (93%) yn mynd mewn i'r flwyddyn newydd gydag agwedd gadarnhaol (36% yn hyderus iawn; 57% yn weddol hyderus).

"Mae'n brin iawn i gael penwythnos gwag, felly rydym yn hyderus iawn."
Hostel

"Drwy edrych ar ein bwciadau, rydym yn edrych ar ein blwyddyn fwyaf prysur fyth."
Hostel

Gwersylla ar gyfer y gwyliau

- 10.4 Mae gan safleoedd carafanau a gwersylla obeithion uchel am 2017 – mae 49% o weithredwyr yn hyderus iawn ac mae 38% yn weddol hyderus am eu perfformiad y flwyddyn nesaf.

"Rwy'n credu y bydd llawer o bobl yn edrych i fynd ar wyliau yn y DU y flwyddyn nesaf felly rwy'n hyderus iawn ar gyfer 2017."
Safle carafanau a gweryslla

"Rwyf eisoes wedi cael nifer o ymholiadau am y flwyddyn nesaf felly rwy'n teimlo'n hyderus am fusnes."
Safle carafanau a gweryslla

Rhagfynegir 2017 i fod yr union beth sydd ei angen ar gyfer atyniadau

10.5 Gyda hanner (50%) o atyniadau ymatebol yn adrodd cynnydd mewn ymwelwyr eleni, mae cyfran uchel o'r sector yn hyderus wrth fynd mewn i 2017 (18% yn hyderus iawn; 67% yn weddol hyderus).

"Mae gennym lawer o bethau ar y gweill ar gyfer y flwyddyn nesaf felly rydym yn hapus iawn."
Atyniad

Cael noson dda o gwsg yng Nghymru

10.6 Mae gweithredwyr llety hunanddarpar a llety â gwasanaeth yn gallu cysgu'n gyfforddus gan eu bod yn edrych i 2017 gydag optimistiaeth. Gyda bwciadau ymlaen llaw yn cynyddu, mae gweithredwyr llety hunanddarpar (30% yn hyderus iawn; 53% yn weddol hyderus) a llety â gwasanaeth (34% yn hyderus iawn; 49% yn weddol hyderus) yn gobeithio croesawu mwy o ymwelwyr i'w hystafelloedd y flwyddyn nesaf.

"Edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf."
Llety â gwasanaeth

"Gweddol hyderus am y flwyddyn nesaf; mae gennym fwciadau'n dod i mewn yn barod."
Hunanddarpar

"Rwy'n credu mai'r flwyddyn nesaf fydd ein un gorau fyth. Rydym wedi gweld ein bod wedi bod yn gwella ein hunain o flwyddyn i flwyddyn ac rydym wedi bod yn gweithredu ers deng mlynedd bellach."
Llety â gwasanaeth

Bod yn weithredol yn 2017

10.7 Mae cyfran dda o ddarparwyr gweithgareddau yn hyderus am flwyddyn lwyddiannus (19% yn hyderus iawn; 67% yn weddol hyderus), gyda disgwyliadau o ymwelwyr yn cymryd rhan yn eu cynigion gan fod bwciadau ar gyfer 2017 eisoes wedi eu derbyn.

"Rydym ni wedi cael mwy o archebion ymlaen llaw nag a gawsom ni'r llynedd yn barod."
Gweithredwr gweithgareddau

"Rwy'n teimlo lawer mwy hyderus am y flwyddyn nesaf nag yr oeddwn yr amser hwn y llynedd."

Gweithredwr gweithgareddau

Gwasanaeth!

10.8 Mae eleni wedi bod yn dda i fwytai, tafarndai a chaffis, gyda 50% wedi gweld cynnydd mewn niferoedd. Ac mae'n edrych fel y gallai 2017 fod hyd yn oed yn well, gyda thua chwarter (26%) o weithredwyr yn optimistaidd iawn ar gyfer y flwyddyn, a 52% pellach yn weddol hyderus.

"Rydym wedi cael dechrau da felly rwyf am barhau â hynny."

Bwyty / tafarn / caffi

Brexit: dwy ochr i'r geiniog

10.9 Mae'r rhan fwyaf o'r hyder sy'n mynd mewn i 2017 yn dod o gwmp y bunt yn dilyn Brexit, sy'n gwneud y DU yn gyrchfan â gwell gwerth ar gyfer ymwelwyr o dramor, ac sy'n annog mwy o Brydeinwyr i fynd ar wyliau gartref.

10.10 Ond tra bod rhai gweithredwyr yn teimlo'r buddion yn y tymor byr, mae barn ranedig ynghylch sut fydd y diwydiant twristiaeth yn perfformio yn y tymor hir, unwaith i'r DU dynnu ei hun o'r Undeb Ewropeaidd.

10.11 Mae rhai ymatebwyr yn credu y bydd eu niferoedd o ymwelwyr yn gwella, yn aml yn nodi'r gyfradd cyfnewid fel rheswm dros gynydd, mae rhai'n credu y bydd Brexit yn golygu llai o ymwelwyr hirdymor, ac nid oes gan eraill yr un syniad beth fydd y dyfodol ar gyfer y DU a Chymru y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

"Bydd Brexit yn cael effaith negyddol enfawr yn 2018."

Llety â gwasanaeth

"Poeni am gynydd mewn prisiau gan ddarparwyr, yn enwedig ar ôl Brexit – bydd yr elw yn lleihau."

Bwyty / tafarn / caffi

"Edrych ymlaen yn fawr at y flwyddyn nesaf. Rwy'n credu gyda Brexit mae popeth yn edrych yn dda, gyda mwy o ymwelwyr o dramor a hefyd pobl yn treulio mwy o amser yn y wlad hon hefyd."

Gweithredwr gweithgareddau

"Poeni am Brexit, oherwydd yr eitemau moethus fel y pethau yr wyf yn eu gwerthu fydd y cyntaf i fynd."

Atyniad

"Mae i gyd yn dibynnu ar Brexit, pa mor hawdd y mae teithio ar gyfer Ewropeaid, a chyflwr y bunt."

Atyniad

"Gadewch i ni weld beth fydd ynghlwm wrth Brexit."

Llety â gwasanaeth

Donald J Trump

10.12 Mae'r Llywydd-ethol Donald Trump am gymryd ei sedd yn y Tŷ Gwyn y flwyddyn nesaf ar ôl i America ei ethol yn yr etholiadau diweddar yn yr UDA. Er y gwnaed y penderfyniad dramor, mae ei arlywyddiaeth yn debygol o gael effaith byd eang – ond nid ydym yn gwybod beth fydd yr effaith hon eto.

"Mae Brexit a Trump wedi gwneud popeth yn ansicr, fel arall byddwn yn hyderus iawn."

Hunanddarpar

"Rwy'n gobeithio y bydd bwciadau'n cynyddu, ar ôl Brexit a Trump – gawn ni weld."

Llety â gwasanaeth


"Bydd Brexit a Trump yn cael effaith negyddol."

Llety â gwasanaeth

"Brexit a'r etholiad yn yr UDA fydd yn effeithio ar dwristiaeth."

Safle carafanau a gweryslla

TUEDD HYDER



Mae hyder yn parhau i hwbio diwydiant twristiaeth Cymru

- 10.13 Mae'r flwyddyn hon wedi gweld lefelau da o hyder ar draws y diwydiant twristiaeth, gydag ond y lleiafrif â'r diffyg hunan-sicrwydd a deimlwyd gan eraill.
- 10.14 Wrth ddynesu at 2017, mae 31% o ymatebwyr yn hyderus iawn am y flwyddyn sydd i'w dod, ac mae mwy na hanner (53%) yn weddol hyderus.
- 10.15 Mae'r hyder hwn wedi cael ei angori yn y fasnach, gyda lefelau uchel yn cael eu nodi yn ystod pob cam.

ATODIAD

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

Holiadur 4, yr Hydref

Sector	Sector	
	Llety â gwasanaeth	<input type="checkbox"/>
	Llety hunan arlwyo	<input type="checkbox"/>
	Maes carafannau / pebyll	<input type="checkbox"/>
	Hostel	<input type="checkbox"/>
	Atyniad.....	<input type="checkbox"/>
	Cynal gweithgaredd.....	<input type="checkbox"/>
	Bwyty / tafam / caffi	<input type="checkbox"/>
Q1	(ATYNIADAU)	
	Sut fydddech chi'n disgrifio eich atyniad?	
	Mae'r atyniad yn hollol neu rhan fwyaf yn yr awyr agored	<input type="checkbox"/>
	Mae'r atyniad yn hollol neu rhan fwyaf dan do.....	<input type="checkbox"/>
	Gymysgedd o dan do ac yn yr awyr agored (hanner a hanner)	<input type="checkbox"/>
Q2	A yw eich busnes wedi'i sefydlu am fwy na 12 mis?	
	Do..... <input type="checkbox"/> Go to Q3	
	Naddo..... <input type="checkbox"/> Go to Q11	
Q3	O gymharu â'r un cyfnod a llynedd, faint o ymwelwyr yr ydych wedi'u cael hyd yn hyn eleni?	
	I fyny ar y llynedd	<input type="checkbox"/>
	Tua'r un peth a llynedd.....	<input type="checkbox"/>
	I lawr ar y llynedd	<input type="checkbox"/>
	Ddim yn gwybod / well gen i ddim dweud	<input type="checkbox"/>

Q4 Pam fyddech chi'n dweud eich bod wedi cael mwy o ymwelwyr? (Ticiwch bob un perthnasol)

- Tywydd gwell
- Marchnata eich hun.....
- Marchnata cyffredinol Cymru
- Busnes dychwel
- Adferiad economaidd
- Mwy o archebion trwy asiant ar-lein (e.e. booking.com).....
- Wedi arwyddo fyny i asiantaeth newydd (hunan arlwygo).....
- Argymhellion.....
- Cynnydd mewn twristiaeth
- Mwy o le / ystafelloedd
- Digwyddiadau yn yr ardal
- Ystafelloedd neu gyfleusterau gwell.....
- Mwy o bobl Prydain yn aros yn y DU
- Mwy o ymwelwyr tramor.....
- Ddim yn gwybod
- Arall
- Nodwch reswm / resymau eraill

Q5 Pam fyddech chi'n dweud eich bod wedi cael llai o ymwelwyr? (Ticiwch bob un perthnasol)

- Tywydd
- Ddim wedi hyrwyddo'r busnes / busnes dirwyn i lawr.....
- Problemau annisgwyl
- Hinsawdd economaidd.....
- Cystadleuaeth gref.....
- Twristiaeth wedi gostwng yn yr ardal
- Llai o ymwelwyr tramor.....
- Llai o bobl Prydain yn mynd ar wyliau yn y DU.....
- Ddim yn gwybod
- Arall
- Nodwch reswm / resymau eraill

Q6 Hyd yn hyn eleni, sut mae eich proffidoldeb ar y cyfan o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd?

- I fyny ar y llynedd
- Tua'r un peth a llynedd.....
- I lawr ar y llynedd
- Ddim yn gwybod / well gen i ddim dweud

Q7 O edrych ar darddiad eich ymwelwyr, sut mae lefel y busnes hyd yn hyn eleni o bob un o'r marchnadoedd canlynol o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd?

	I fyny ar y llynedd	Tua'r un peth a llynedd	I lawr ar y llynedd	Ddim yn gwybod neu ddim yn gymwys
Cymru	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
O fewn y DU tu allan Cymru	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Iwerddon	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Yr Almaen	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gwledydd eraill yn Ewrop	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gogledd America	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gweddill y byd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Q8 A faint o ymwelwyr yr ydych wedi'u cael yn ystod hanner tymor mis Hydref o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd?

- Yn fwy na'r llynedd
- Tua'r un peth ag y llynedd
- Yn llai na'r llynedd
- Ddim yn gwybod

Q9 Oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol i'w gwneud ar berfformiad eich busnes

Q10 (LLETY YN UNIG)

Faint o archebion ymlaen llaw sydd gennych am 2017?

- Mwy na byddem fel arfer yn cael yr adeg yma o'r flwyddyn
- Tua'r un faint ag y byddem fel arfer ar yr adeg yma o'r flwyddyn
- Mae llai na byddem fel arfer yn cael yr adeg yma o'r flwyddyn
- Ddim yn gwybod / ddim yn gymwys

Q11 Ar y cyfan, pa mor hyderus ydych chi am 2017?

- Hyderus iawn
- Eithaf hyderus
- Ddim yn hyderus iawn
- Ddim yn hyderus o gwbl
- Ddim yn gwybod

Q12 A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol i'w gwneud ar eich disgwyliad / hyder ar gyfer 2017

Q13 A yw eich busnes wedi'u graddio neu wedi'u hachredu gan Croeso Cymru (Visit Wales)?

- Do
- Naddo

Diolch i chi am eich amser

Region Rhanbarth o Gymru

- Gogledd.....
- Canolbarth.....
- De-orllewin
- De Ddwyrain.....

Business Enw'r busnes

ID *ID: record from database*

Online

.....